# Mynychu eich grŵp ymgynghori trwy fideo

Enter the name of the service here

**Mae galw fideo yn gyfleus ac yn hawdd ei ddefnyddio**

Yn hytrach na theithio i'ch ymgynghoriad grŵp, gallwch fynychu ar-lein, gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Bydd y gwasanaeth yn eich gweld yn yr ardal aros ar-lein, a bydd yr ymgynghoriad yn dechrau fel y trefnwyd.

Nid oes angen creu cyfrif.

Mae galwadau fideo ymgynghori grŵp yn ddiogel ac mae eich preifatrwydd wedi'i ddiogelu.



## Dyma'r ddolen sydd ei hangen arnoch

Ewch i: Enter the URL of the web page entry point here

## Beth sydd ei angen arnaf i ymuno ag ymgynghoriad grŵp?

- **Dyfais** ar gyfer gwneud fideoalwad, e.e. ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur gyda camera a meicroffon (yn aml wedi'u cynnwys mewn gliniaduron).
- **Cysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd** (gwifrau, WiFi neu ddata symudol). Os gallwch wylio fideo ar-lein, dylech chi allu gwneud fideoalwad.
- **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda** ar gyfer eich ymgynghoriad, lle na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws.
- Defnyddiwch y fersiwn diweddara o **Chrome**, **Safari** neu **Edge** i gael y profiad gorau yn ystod y galwad.

| Google Chrome | Apple Safari | Microsoft Edge |
| --- | --- | --- |
| Windows, Android, MacOS | MacOS, iOS, iPadOS | Windows |

Gweler tudalen dau i gael rhagor o wybodaeth am sut i ymuno ag ymgynghoriad grŵp trwy fideo

## Beth sydd angen i mi ei wybod?

### A yw'n ddiogel / gyfrinachol?

Dim ond eich darparwr gwasanaeth fydd yn gweld eich manylion cyswllt.

Nid yw eich gwybodaeth yn cael ei storio.

Gall pawb sy'n cymryd rhan weld a chlywed ei gilydd oni bai bod eu camera neu feicroffon i ffwrdd.

### Faint mae fideoalwad yn ei gostio?

Mae'r fideoalwad yn rhad ac am ddim heblaw am eich defnydd o'r rhyngrwyd.

**Awgrym!** Os gallwch chi, cysylltwch â rhwydwaith Wi-Fi er mwyn osgoi defnyddio'ch data symudol.

### Faint o ddata rhyngrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Dydy'r alwad fideo ddim yn defnyddio data pan fyddwch chi'n aros am rywun i ymuno.

Pan fydd yr alwad yn cysylltu, mae'n defnyddio'r un faint o ddata a Skype® neu Facetime®.

## Sut ydw i'n ymuno ag ymgynghoriad grŵp?

**1.** Agorwch borwr a nodwch ddolen y gwasanaeth yn y bar cyfeiriad (nid y blwch chwilio).

**2.** Os gofynnir i chi, gadewch i'r porwr gael mynediad i'ch camera a'ch meicroffon.

**3.** Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin, gan ddewis y botwm **Cam Nesaf (Next Step)** i symud ymlaen (efallai y bydd angen i chi sgrolio i'w weld).

**4.** Dewiswch y botwm **I Mewn i'r Ardal Aros (Enter Waiting Area)** i ymuno â'r ymgynghoriad grŵp.

**Enter Waiting Area**

- Mae eich meicroffon yn cael ei dewi ar y dechrau. Gallwch ei ddad-dewi pan fydd angen i chi trwy ddefnyddio'r rheolaethau galwadau.
- Os yw'r rheolyddion wedi'u cuddio, cliciwch neu tapiwch i'w gweld.



- Mae'r rheolaethau galwadau hefyd yn gadael i chi oedi'ch fideo, codi llaw rithwir pan hoffech chi gyfrannu, rhoi cynnig ar wahanol gynlluniau, neu newid i'r modd sgrin lawn.
- Mewn rhai ymgynghoriadau grŵp efallai y byddwch yn gweld botwm **Sgwrs (Chat)** yn yr ardal rheolaethau galwadau. Gallwch ddefnyddio hwn i anfon negeseuon i'r grŵp neu ymateb i negeseuon y mae'r darparwr yn eu hanfon atoch.
- Efallai y bydd eich darparwr gwasanaeth yn rhannu'r grŵp yn grwpiau llai gan ddefnyddio ystafelloedd trafod. Mae'r rheolaethau galwadau yn parhau i fod ar gael i chi, hyd yn oed tra'ch bod mewn ystafell ymneilltuo.
- I adael y sesiwn, dewiswch y botwm **Gadael yr alwad (Leave the call)** ar ochr dde eithaf y rheolaethau.



## Beth os nad yw rhywbeth yn gweithio?

Ymweld **https://wales.nhs.attendanywhere.com/troubleshooting**

### Rhagor o wybodaeth

Enter additional information, such as contact details, here

Powered by attendanywhere®

Gweler tudalen un am gyfeiriad gwe eich gwasanaeth